

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Bridge Street /
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel
Dda

Dyddiad arolygu: 6 Medi 2019

Dyddiad cyhoeddi: 9 Rhagfyr
2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	14
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	23
4.	Beth nesaf?	26
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	28
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	29
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	30
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	31

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Bridge Street yn 21-23 Bridge Street, Hwlfordd, SA61 2AL, o fewn ardal Bwrdd Iechyd Hywel Dda, ar 6 Medi 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC, yr oedd un ohonynt yn arwain yr arolygiad ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC i ba raddau yr oedd y gwasanaeth yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, y Safonau Iechyd a Gofal (2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod Practis Deintyddol Bridge Street yn darparu gofal diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar y claf.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom drwy holiaduron AGIC fod y rhan fwyaf o'r cleifion o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir yn y practis yn ardderchog.

Fodd bynnag, gwelsom beth tystiolaeth nad oedd y practis yn cydymffurfio'n llawn â'r holl reoliadau perthnasol.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff yn gwrtais wrth gyfathrebu â'r cleifion.
- Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw i safon uchel ac yn cael eu storio'n ddiogel.
- Roedd y cleifion yn gallu rhoi adborth dienw ar y gofal a'r driniaeth a gawsant.
- Roedd polisïau cynhwysfawr ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant staff y practis a'r cleifion.
- Roedd amrywiaeth o wybodaeth am iechyd y geg wedi'i harddangos yn y practis.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Darparu hyfforddiant i'r staff ar ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed.
- Darparu hyfforddiant i'r staff ar Ddadebru Cardiobwlmonaidd (CPR).
- Y broses o fonitro pryd y mae angen gwneud gwaith cynnal a chadw ar y cyfarpar dihalogi.
- Y prosesau ar gyfer monitro'r stoc o gyffuriau brys.
- Mae angen polisïau ar gyfer recriwtio, sefydlu a chadw staff.

- Mae angen diweddarau'r datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion.
- Mae angen diweddarau'r holl lenyddiaeth ac arwyddion er mwyn adlewyrchu manylion y perchennog newydd.

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle roedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Practis Deintyddol Bridge Street wedi'i leoli yng nghanol dref Hwlfordd. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys dau ddeintydd, un ohonynt yw'r prif ddeintydd, tair nyrs ddeintyddol a derbynnydd. Mae nyrs dan hyfforddiant ar leoliad gwaith yn gweithio yno hefyd.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac ar ran y GIG.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, roedd gan Bractis Deintyddol Bridge Street brosesau addas ar waith er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael profiad cadarnhaol yn y practis.

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn gallu cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Roedd gan y practis amrywiaeth eang o wybodaeth i helpu cleifion i wneud dewisiadau effeithiol ynglŷn ag iechyd y geg da ac opsiynau triniaeth yn ôl yr angen.

Roedd yr awyrgylch yn groesawgar, a gwelsom fod y staff yn gwneud ymdrech fwriadol i sicrhau bod y cleifion yn ymlacio ac yn teimlo'n gartrefol.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 17 ohonynt. Roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan; dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn 'ardderchog' neu'n 'dda iawn'. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

“Gwasanaeth a gofal gwych i mi a'm teulu”

“Gwasanaeth gwch i'm mab sydd ag anawsterau dysgu”

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Roedd y cleifion yn fodlon ar y gwasanaeth ac ni wnaethant nodi unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella.

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi egluro wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Gwelsom fod ystod eang o wybodaeth ar gael i'r cleifion yn yr ardaloedd aros am driniaethau preifat a thriniaethau'r GIG, yn ogystal â gwybodaeth gyffredinol am iechyd y geg i oedolion a phlant. Roedd y wybodaeth hon ar gael ar hysbysfyrddau, taflenni ac mewn ffolder gwybodaeth i gleifion a oedd yn cael ei gadw yn yr ardal aros. Roedd hwn yn cynnwys gwybodaeth am ardaloedd ataliol, adferol ac orthodontig â lluniau a diagramau i'w gwneud yn haws i ddeall.

Gofal ag urddas

Lle y bo'n berthnasol, roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff wrth ymweld â'r practis.

Dywedodd y staff wrthym y byddent yn defnyddio'r ystafell staff fach wrth ymyl y dderbynfa neu'r ddeintyddfa os oedd yn wag, os oedd angen iddynt gynnal sgwrs breifat â chlaf er mwyn sicrhau bod trafodaethau'n cael eu cynnal mewn ffordd sy'n diogelu cyfrinachedd cleifion. Nodwyd bod gan y practis amrywiaeth o bolisiâu a oedd yn ymwneud â phreifatrwydd, urddas a chyfrinachedd. Gwelsom fod drws y ddeintyddfa yn cael ei gadw ar gau yn ystod triniaethau.

Nodwyd gennym fod y 9 Egwyddor a nodwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol¹ wedi'u harddangos yn y dderbynfa. Mae'r egwyddorion hyn yn gymwys i bob aelod o'r tîm deintyddol ac yn nodi'r hyn y gall cleifion ei ddisgwyl gan weithiwr deintyddol proffesiynol.

Gwelsom staff y dderbynfa yn croesawu'r cleifion yn gyfeillgar ac yn siarad â nhw mewn ffordd gwrtais.

Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau a wnaed am eu triniaeth gymaint ag yr oeddent am fod yn rhan o hynny. Lle y bo'n berthnasol, dywedodd pob un o'r

¹ <https://standards.gdc-uk.org/>

cleifion hefyd eu bod wedi cael gwybodaeth glir am y triniaethau sydd ar gael a dywedodd pob un ond dau ohonynt fod y gost bob amser yn cael ei hegluro cyn iddynt gael unrhyw driniaeth.

Wrth asesu'r daflen wybodaeth i gleifion, gwelsom fod angen diweddarau'r wybodaeth am y tîm deintyddol. Roedd angen dileu manylion cyflogeion blaenorol ac ychwanegu'r tîm deintyddol presennol. Hefyd, mae angen i'r gwasanaeth sicrhau bod digon o daflenni ar gael i'r cleifion fynd â rhai gyda nhw.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ddiweddarau ei daflen wybodaeth i gleifion er mwyn cynnwys enwau'r gweithwyr deintyddol proffesiynol presennol a chyflwyno copi i AGIC.

Mae angen i'r gwasanaeth sicrhau bod digon o daflenni gwybodaeth i gleifion ar gael.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

Mae'n rhaid i wasanaethau'r GIG gynnig gwasanaethau iaith sy'n diwallu eu hanghenion i gleifion sy'n siarad Cymraeg fel rhan naturiol o'u gofal, fel sy'n ofynnol gan y Safonau Iechyd a Gofal. Roedd yn gadarnhaol nodi bod y rhan fwyaf o'r wybodaeth ysgrifenedig a ddarparwyd i'r cleifion ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw staff Cymraeg eu hiaith yn y practis ac nad oedd unrhyw drefniadau ar waith i gaffael gwasanaethau cyfieithu pe bai claf yn dymuno siarad Cymraeg neu unrhyw iaith arall.

Dylai'r gwasanaeth ystyried pa wasanaethau y gall eu darparu er mwyn diwallu anghenion pobl nad ydynt yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf.

Gofal amserol

Dywedodd ychydig yn llai na thraean o'r cleifion a gwblhaodd holiadur na fyddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Roedd manylion sut y gallai cleifion gael gafael ar ofal deintyddol brys pan oedd y practis ar gau wedi'u harddangos wrth fynedfa'r practis, ar y daflen wybodaeth

i gleifion, yn y ffolder i gleifion yn yr ardal aros ac fel rhan o neges peiriant ateb y practis.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei bod yn 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Roedd y practis yn ymdrechu i sicrhau bod y cleifion yn cael eu gweld yn brydlon a nodwyd bod yr achosion o apwyntiadau'n rhedeg yn hwyr yn brin. Dywedodd y staff wrthym pe byddai deintydd yn rhedeg yn hwyr, y byddent yn rhoi gwybod i'r claf a oedd yn aros am unrhyw oedi a chynnig aildrefnu'r apwyntiad, os oedd angen.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth.

Yn ystod yr arolygiad, nodwyd gennym fod yr opsiynau triniaeth wedi'u cofnodi ar bob un o'r cofnodion perthnasol a welsom. Dangosodd hyn fod y cleifion yn cael eu cefnogi i wneud penderfyniadau am eu hopsiynau triniaeth.

Hawliau pobl

Mae'r practis ar y llawr cyntaf, uwchben rhes o siopau. Nid oedd y practis yn hygyrch i bobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn na phobl â phroblemau symudedd helaeth gan mai dringo'r grisiau oedd yr unig ffordd o gyrraedd y practis. Fodd bynnag, caiff hyn ei egluro'n glir yn y daflen wybodaeth i gleifion.

Roedd gan y practis bolisi cynhwysfawr o'r enw'r Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol i gefnogi'r staff a'r cleifion. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn gallu cyflawni ei ymrwymadau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. At hynny, gwelsom bolisi derbyn cleifion ac roedd y trefniadau ar gyfer derbyn cleifion newydd hefyd wedi'u nodi yn y ffolder gwybodaeth i gleifion.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Gwelsom fod polisi cwynion ar waith o'r enw 'Gweithdrefn Ymdrin â Chwynion a Gofal Cwsmeriaid'. Roedd y polisi hwn yn cydymffurfio â chynllun Gweithio i

Wella² y GIG a'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat. Fodd bynnag, mae angen i'r polisi hwn gynnwys manylion cyswllt AGIC.

Roedd cwynion yn cael eu cofnodi mewn cofnodlyfr a oedd yn dangos cyfrif cyfredol o'r achos. Dywedwyd wrthym fod sylwadau llafar yn cael eu cofnodi ar nodiadau digidol y cleifion hefyd, a bod y rheolwr cofrestredig yn ymdrin â nhw.

Gwelsom fod holiaduron i gleifion ar gael yn yr ardal aros i'r cleifion fynd â nhw a'u cwblhau'n ddiennw.

Er mwyn dangos i'r holl gleifion bod y practis yn gwranddo ar eu hadborth neu'n gweithredu arno, rydym yn argymhell y dylai arddangos y canlyniadau neu'r newidiadau a wnaed yn dilyn adborth y cleifion yn yr ardaloedd aros neu yn y daflen wybodaeth i gleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r gwasanaeth roi gwybod i gleifion am ganlyniadau ac unrhyw newidiadau sy'n deillio o adborth cleifion. Mae angen i'r polisi cwynion gynnwys gwybodaeth gyswllt AGIC.

² <http://www.wales.nhs.uk/sites3/home.cfm?orgid=932>

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod y cleifion yn cael gofal deintyddol diogel ac effeithiol.

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw i safon uchel.

Gwelsom fod y cyfleusterau clinigol yn cynnwys adnoddau da iawn a bod trefniadau ar waith i drin cleifion yn ddiogel.

Roedd y mesurau ychwanegol a gymerwyd gan y practis i roi sicrwydd i'r staff ynghylch pelydrau-x yn werth eu nodi.

Rydym yn argymhell y dylai'r practis adolygu ei stoc o gyffuriau brys er mwyn sicrhau y caiff stoc sydd wedi darfod ei gwaredu.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd y practis ar y llawr cyntaf uwchben siop mewn ardal siopa i gerddwyr. Roedd y practis yn cynnwys deintyddfa, y dderbynfa/ardal aros, ystafell ddihalogi, cegin/ystafell staff a thoiled cleifion/staff. Roedd y ddeintyddfa'n fodern ac yn cynnwys digon o offer. Roedd cynlluniau ar waith i agor ail ddeintyddfa ac ar adeg yr arolygiad oedd y gwaith ailwampio yn mynd rhagddo.

Roedd y practis yn olau, yn daclus ac yn fawr. Roedd y tu allan i'r adeilad yn ymddangos fel petai'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Y tu mewn, roedd yr adeilad wedi cael ei ddylunio a'i deilwra ar gyfer y practis gan roi ystyriaeth i anghenion y staff a'r cleifion. Roedd y ddeintyddfa wedi cael ei hailwampio i safon dda yn ddiweddar.

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef. Gwelsom fod nifer o bolisiau cynhwysfawr ar waith, gan gynnwys polisi iechyd a diogelwch, polisi asesiadau risg a pholisi cynllun wrth gefn mewn argyfwng. Roedd polisiau ac asesiadau risg ar gael yn hawdd i bob aelod o'r staff. Roedd asesiad risg amgylcheddol ar waith er mwyn helpu i ddiogelu'r staff a'r cleifion. Fodd bynnag, nid oedd polisi ar waith ar gyfer sicrhau bod y safle yn addas at y

diben. Argymhellwn y dylid rhoi polisi ar waith i sicrhau bod y safle'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

Gwnaethom sylwi y gallai'r ffenestri isel yn y dderbynfa a'r ardaloedd aros beri risg bosibl i blant pan fyddent ar agor. Fel rhan o asesiad risg yn y dyfodol, rydym yn argymhell y dylai'r practis ystyried y ffordd orau o ddiogelu plant rhag unrhyw beryglon sy'n gysylltiedig â ffenestri isel agored.

Roedd cyfarpar diogelwch tân ar gael mewn amryw leoliadau yn y practis, a gwelsom fod y cyfarpar hwnnw wedi cael ei wasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd dau aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant tân ffurfiol ac rydym yn cynghori y dylai aelodau eraill o'r staff ei gwblhau. Cynhaliwyd driliau tân ac roedd cofnod yn cael ei gadw fel tystiolaeth ohonynt.

Roedd arwyddion clir yn dangos yr allanfeydd brys ac roedd goleuadau argyfwng wedi'u gosod. Roedd arwydd dim smygu wedi'i arddangos er mwyn atgoffa'r staff a'r cleifion o'r ddeddfwriaeth mangreoedd di-fwg³. Roedd poster lechyd a Diogelwch a oedd yn dweud wrth y staff beth roedd angen iddynt ei wneud i sicrhau eu hiechyd a'u diogelwch yn y gweithle yn cael ei arddangos yn y practis.

Roedd gan y practis bolisi dadebru ar waith ac roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant dadebru cardiobwlmonaidd (CPR)/hyfforddiant brys. Fodd bynnag, er bod yr hyfforddiant cardiobwlmonaidd yn gyfredol, nid oedd cynnwys yr hyfforddiant diweddar yn glir. Gwnaethom argymhell bod y staff yn cael eu cofrestru i wneud cwrs gloywi ar unwaith er mwyn sicrhau bod y cynnwys cywir yn cael ei ddysgu yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU).

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r gwasanaeth roi polisi ar waith i sicrhau bod gwaith cynnal a chadw'r adeiladu yn addas at y diben.

³ Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2015 – Cafodd deddfwriaeth i wahardd smygu mewn mannau cyhoeddus caeedig ei chyflwyno yn 2007 er mwyn amddiffyn y cyhoedd rhag mwg ail-law.

Mae angen i'r rheolwr cofrestredig drefnu hyfforddiant gloywi ar ddadebru cardiobwlmonaidd i'r holl staff clinigol a darparu tystiolaeth o hyn i AGIC.

Atal a rheoli heintiau

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod mesurau atal a rheoli heintiau addas ar waith a'u bod wedi'u dogfennu mewn polisi rheoli heintiau priodol. Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan y cleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn 'lân iawn'.

Roedd gan y practis gyfleusterau pwrpasol i lanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05⁴. Fodd bynnag, gwelsom fod angen cael gwared ar yr annibendod o'r ystafell ddihalogi. Roedd uned silffoedd annibynnol yn rhwystro mynediad i fasn golchi dwylo. Argymhellwn y dylid adolygu cynllun yr ystafell, ac ystyried gosod lle storio ar y waliau. Roedd peiriannau wedi'u datgomisiynu ar yr arwyneb gwaith, ac roedd angen cael gwared ar y rhain.

Gwelsom dystiolaeth bod archwiliad rheoli heintiau wedi cael ei gynnal yn 2017 gan ddefnyddio adnoddau archwilio cydnabyddedig, gan gynnwys adnodd archwilio Deoniaeth Cymru sy'n cyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Argymhellwn fod yr archwiliad hwn yn cael ei gynnal yn flynyddol.

Gwelsom hefyd nad oedd yr awtoclaf wedi cael ei gynnal a'i gadw yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr. Cafodd hyn ei unioni ar ddiwrnod yr arolygiad, gan fod y rheolwr cofrestredig wedi llwyddo i ddod o hyd i beiriant newydd. Gwelsom fod y peiriant awtoclaf newydd wedi cael ei wasanaethu'n ddiweddar ac felly cawsom sicrwydd y gallai'r broses ddihalogi gael ei chynnal yn ddiogel.

⁴ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddihalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Argymhellwn fod y darparwr yn rhoi proses ar waith sy'n sicrhau y caiff gwaith cynnal a chadw rheolaidd ei gynnal yn amserol.

Gwelsom fod y ddeintyddfa'n fodern ac yn cynnwys digon o offer. Fodd bynnag, gwelsom fod angen rhoi sêl newydd ar y cefnwrdd yn y ddeintyddfa. Gwelsom hefyd mai dim ond un cyfleuster gel dwylo a oedd yn y ddeintyddfa ac argymhellwyd gosod ail gyfleuster ar y wal gyferbyn.

Roedd contract ar waith i drosglwyddo a gwaredu gwastraff (clinigol) peryglus a gynhyrchir gan y practis yn ddiogel. Gwelsom fod gwastraff peryglus yn cael ei storio'n briodol. Roedd casgliadau gan y cyngor lleol ar waith i waredu gwastraff (cartref) nad yw'n beryglus.

Roedd y practis wedi gwneud trefniadau priodol â'r gwasanaeth iechyd galwedigaethol lleol i ddelio ag unrhyw anafiadau a achosir gan offer miniog a/neu frechiadau. Gwelsom gofnodion yn ymwneud â statws imiwneiddio Hepatitis B pob aelod o'r staff clinigol a oedd yn gweithio yn y practis. Roedd hyn yn golygu bod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod y cleifion a'r staff yn cael eu hamddiffyn rhag y firws hwn a gludir yn y gwaed.

Gwelsom fod y prif ddeintydd yn defnyddio system fetel draddodiadol er mwyn rhoi anesthetig lleol. Gwnaethom drafod pwysigrwydd cynnal archwiliad offer miniog a rhaglen addysgu staff er mwyn asesu'r risg o anafiadau a achosir gan offer miniog a sicrhau bod mesurau rheoli priodol ar waith.

Gwnaethom argymell defnyddio dyfeisiau mwy diogel i ddiogelu rhag offer miniog, er mwyn lleihau'r potensial i staff gael eu hanafu gan offer miniog, a bod chwistrellau rhoi anesthetig lleol untro tafladwy ar gael sy'n cynnwys system ddiogelwch i amddiffyn rhag anafiadau damweiniol ar gael.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith sy'n sicrhau bod offer dihalogi yn cael ei gynnal a'i gadw'n rheolaidd.

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal archwiliad offer miniog ac ystyried darparu chwistrellau rhoi anesthetig lleol tafladwy sy'n cynnwys system ddiogelwch i amddiffyn rhag anafiadau damweiniol.

Mae angen i'r gwasanaeth adolygu cynllun yr ystafell ddihalogi, ac ystyried gosod lle storio ar y waliau.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis i ymdrin ag argyfyngau mewn perthynas â chleifion, gan gynnwys polisi dadebru. Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant yn ystod y 12 mis diwethaf ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i ymgymryd â thriniaeth dadebru cardiobwlmonaidd (CPR).

Mae dyletswydd ar ddarparwyr gofal iechyd i ddarparu sgiliau dadebru os bydd argyfwng ac i sicrhau y caiff staff eu hyfforddi a'u diweddarau'n rheolaidd hyd at lefel o fedrusrwydd sy'n briodol ar gyfer eu rôl.

Roedd gan y practis y cyffuriau brys a'r cyfarpar dadebru brys priodol, yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU. Fodd bynnag, gwelsom fod bocs o feddyginiaeth frys a oedd wedi darfod yn cael ei gadw mewn cwpwrdd gyda'r cyffuriau cyfredol. Er mwyn lliniaru'r risg o ddefnyddio meddyginiaeth sydd wedi darfod, mae angen i'r practis roi gweithdrefn i sicrhau y caiff hen feddyginiaeth ei thrin yn ddiogel.

Roedd polisiâu a gweithdrefnau ar waith yn y practis i sicrhau bod modd cael gafael ar feddyginiaethau'n briodol, yn ogystal â'u trin a'u defnyddio'n briodol, ac roedd pob aelod o'r staff wedi cytuno arnynt. Roedd cyffuriau a phadiau presgripsiwn yn cael eu cadw mewn cwpwrdd. Roedd pryderon am adweithiau andwyol i gyffuriau yn cael eu hadrodd drwy'r system Cerdyn Melyn.

Roedd pecynnau cymorth cyntaf ar gael yn y practis, gyda phob un ohonynt yn cynnwys eitemau priodol a oedd yn gyfredol. Roedd gan y practis ddau swyddog cymorth cyntaf penodedig a oedd wedi cael yr hyfforddiant cymorth cyntaf priodol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r gwasanaeth roi proses ar waith ar gyfer cael gwared ar feddyginiaeth sydd wedi darfod.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Roedd gan y practis bolisi diogelu ar waith er mwyn amddiffyn plant ac oedolion diamddiffyn a oedd yn cynnwys gweithdrefnau i'r staff eu dilyn pe bai unrhyw bryderon ynghylch diogelu unigolion. Roedd y polisi'n cynnwys manylion cyswllt er mwyn i'r staff roi gwybod i'r asiantaethau diogelu lleol perthnasol am unrhyw bryderon. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn trafod unrhyw bryderon diogelu gyda'r arweinydd diogelu enwebedig yn y practis yn gyntaf.

Nodwyd gennym nad oedd un aelod o'r staff wedi ymgymryd â hyfforddiant diweddar ar ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed. Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant hyd at lefel 2.

Roedd y staff yn ymwybodol o Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008, sy'n nodi'r canllawiau cenedlaethol ar gyfer diogelu plant a hyrwyddo eu lles ledled Cymru. Roedd copi ar gael yn ardal y dderbynfa i'r staff ei ddarllen.

Dywedodd y staff wrthym am y gwiriadau cyn cyflogi a fyddai'n cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau newydd o'r staff cyn iddynt ymuno â'r practis. Roedd hyn yn cynnwys gofyn am eirdaon gan gyflogwyr blaenorol a chynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)⁵ er mwyn sicrhau bod yr unigolyn yn addas i weithio mewn practis deintyddol yn unol â'r rheoliadau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant priodol ar ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwnaethom archwilio'r cyfleusterau clinigol yn y practis a gwelsom fod y cyfarpar deintyddol yn y ddeintyddfa wedi'i gynnal a'i gadw'n dda a'i fod mewn cyflwr da. Gwelsom fod cyfarpar priodol yn y ddeintyddfa er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol.

Roedd yr holl offer radiolegol mewn cyflwr da. Roedd trefniadau addas ar waith i ddefnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel. Fodd bynnag, roedd angen diweddarau'r ffeil diogelwch rhag ymbelydredd am nad oedd yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf.

Gwelsom fod y practis yn defnyddio chwistrellau anaestetig lleol traddodiadol y gellir eu haildefnyddio. Argymhellwn y dylid cynnal asesiad risg o'r broses hon

⁵ Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant. Mae'n cymryd lle'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.

ac y dylid defnyddio dyfeisiau diogelwch priodol fel giardiaiu nodwydd er mwyn lliniaru'r risg y ceir anaf damweiniol. Fel arall, gallai'r practis ddefnyddio chwistrellau tafladwy ar gyfer rhoi anaestetig lleol sy'n cynnwys system ddiogelwch i amddiffyn rhag anaf damweiniol.

Roedd cywasgyddion a ddefnyddir yn y practis yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd ac roedd tystysgrifau ar gael i ddangos hyn. Yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol⁶ a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017, mae'n rhaid i bob aelod perthnasol o'r staff gael hyfforddiant ar y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio. Roedd y ddau ddeintydd wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r rheolwr cofrestredig gynnal asesiad risg o'r chwistrellau anesthetig gan gynnwys y camau a gymerir i liniaru'r risg o anafiadau damweiniol.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom dystiolaeth bod nifer o archwiliadau clinigol ar waith yn y practis er mwyn helpu i ddangos ei fod yn cadw at y safonau proffesiynol cyfredol. Bydd canlyniadau'r archwiliadau yn helpu i nodi unrhyw feysydd i'w gwella ac yn cefnogi unrhyw newidiadau i arferion y tîm deintyddol.

Roedd datganiad o ddiben y practis yn nodi'r trefniadau priodol ar gyfer derbyn, asesu, diagnosio a thrin cleifion. Roedd amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith yn y practis i ategu'r swyddogaethau hyn hefyd.

Gwelsom dystiolaeth drwy gydol yr arolygiad fod canllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol, megis canllawiau NICE, yn cael eu hystyried yn y ffordd ddyledus ac yn cael eu dilyn lle y bo'n briodol.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

⁶ Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol – <http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx>

Dywedwyd wrthym nad oedd y practis yn defnyddio unrhyw adnoddau gwella ansawdd fel adnodd datblygu ymarfer Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth Deoniaeth Cymru⁷ na Chanllaw Arfer Da Cymdeithas Ddeintyddol Prydain⁸. Mae'r adnoddau datblygu hyn yn annog y tîm i ganolbwyntio ar arferion gorau a gofynion deddfwriaethol ac ar y ffordd y maent yn gweithio. Gwnaethom gynghori rheolwr y practis y dylai'r practis ystyried defnyddio adnodd datblygu, er mwyn gwella ansawdd y gofal ar gyfer y cleifion ymhellach.

Roedd rhai archwiliadau clinigol wedi cael eu cynnal ond argymhellwn fod archwiliadau pellach yn cael eu cynnal a'u rhoi ar waith, am eu bod yn hanfodol i broses sicrhau ansawdd effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, rhoi'r gorau i smygu, Atal a Rheoli Heintiau a rhagnodi Gwrthficrobaidd, ymhlith eraill. Er mwyn cefnogi hyn, dylai'r practis hefyd ddatblygu polisi yn nodi'r trefniadau ar gyfer archwiliadau clinigol fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r practis gwblhau cyfres o archwiliadau clinigol ac archwiliadau practis, fel yr argymhellir gan ganllawiau a gydnabyddir yn genedlaethol.

Mae angen i'r rheolwr cofrestredig ddatblygu polisi archwilio er mwyn cefnogi'r broses o gwblhau archwiliadau clinigol.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n briodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Er enghraifft, roedd copïau wrth gefn o'r holl ffeiliau electronig yn cael eu gwneud yn rheolaidd.

Roedd nifer o bolisiau a gweithdrefnau priodol ar waith yn y practis, gan gynnwys polisi diogelu data a pholisi cadw cofnodion. Golygai hyn fod y staff yn gallu cael gafael ar ganllawiau addas mewn cysylltiad â'u gwaith o ddydd i ddydd.

⁷ <https://dental.walesdeanery.org/improving-practice-quality/maturity-matrix-dentistry>

⁸ <https://www.bda.org/goodpractice>

Cadw cofnodion

Gwelsom fod polisi a system rheoli cofnodion ar waith sy'n sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu rheoli'n ddiogel. Roedd cofnodion yn glir ac yn ddarllenadwy. Gwelsom fod y cofnodion yn cynnwys digon o wybodaeth o ran dynodyddion y cleifion, hanes deintyddol blaenorol a rhesymau dros apwyntiadau.

Roedd polisi cydsyniad priodol ar waith yn y practis, a oedd yn sicrhau bod hawliau cleifion nad oedd ganddynt alluedd yn cael eu diogelu.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom fod y rheolwr cofrestredig wedi bod yn ymrwymedig i wella'r gofal a ddarperir i gleifion ers cymryd cyfrifoldeb dros y practis yn gynharach eleni.

Roedd y staff yn cydweithio'n dda ac, ar y cyfan, wedi cael yr hyfforddiant angenrheidiol ar gyfer eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Roedd amrywiaeth eang o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Y prif ddeintydd sy'n berchen ar Bractis Deintyddol Penylan, sef yr unigolyn cyfrifol⁹ a'r rheolwr cofrestredig hefyd¹⁰. Caiff gefnogaeth gan dîm ehangach o staff clinigol.

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir. Gwelsom fod y staff yn cydweithio'n dda, ac roedd tystiolaeth o hyn i'w gweld wrth iddynt ryngweithio â'r cleifion, a thrwy eu cydweithrediad a'u hagwedd drwy gydol y broses arolygu.

⁹ Ystyr unigolyn cyfrifol yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall y sefydliad sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y caiff practis deintyddol preifat ei reoli (Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017).

¹⁰ Ystyr rheolwr cofrestredig yw rhywun sydd wedi'i gofrestru o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 fel rheolwr practis deintyddol preifat.

Cadarnhaodd y prif ddeintydd ei fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau fel rheolwr cofrestredig o ran yr hysbysiadau y mae'n rhaid eu hanfon i AGIC o dan y rheoliadau, er enghraifft os ceir anaf difrifol i gleifion.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemniad priodol ar waith ar eu cyfer.

Nodwyd gennym fod tystysgrifau wedi'u harddangos a oedd yn dangos bod gan y practis yswiriant atebolrwydd cyhoeddus er mwyn amddiffyn y practis rhag hawliadau am iawndal a chostau cyfreithiol cysylltiedig a bod y practis wedi'i gofrestru'n gyfreithiol i ddarparu gwasanaethau deintyddol preifat fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Roedd cyfleoedd hyfforddi yn cael eu cynnig i bob aelod o'r staff a gwelsom dystysgrifau ar gyfer y staff a oedd yn dangos eu bod wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau er mwyn helpu i fodloni eu gofynion o ran datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).

Dyweddodd y rheolwr cofrestredig wrthym y caiff arfarniadau eu cynnal gyda phob aelod o'r staff yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn er mwyn rhoi adborth i'r staff ar eu perfformiad ac adolygu unrhyw gyfleoedd ar gyfer DPP.

Oherwydd bod darparwr newydd wedi cymryd yr awenau bum mis yn ôl, a bod rheolwr y practis wedi bod ar absenoldeb salwch hirdymor yn ddiweddar, dim ond un cyfarfod staff a oedd wedi cael ei gynnal. Dywedwyd wrthym fod cyfarfod wedi'i drefnu'n fuan. Mae cyfarfodydd practis yn gyfle i'r staff nodi gwersi a ddysgwyd a chodi unrhyw broblemau a allai fod ganddynt. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod cofnodion o bob cyfarfod yn cael eu cymryd a'u bod yn cael eu hanfon at bob aelod o'r staff er mwyn sicrhau bod unrhyw aelodau o'r staff a oedd yn absennol yn ymwybodol o'r hyn a drafodwyd.

Gwelsom nad oedd polisi ar waith i gefnogi'r staff i godi pryderon am ofal a ddarperir gan staff yn y practis. Gwnaethom argymhell y dylid rhoi polisi chwythu'r chwiban ar waith.

Dyweddwyd wrthym nad oedd y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau unrhyw hyfforddiant rheoli ffurfiol. Fodd bynnag, trefnwyd bod un o'r uwch-nyrsys yn mynychu cwrs rheoli ac arwain gyda'r bwriad o gyflawni rôl rheolwr y practis.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn llwyddo i sicrhau bod nifer briodol o staff cymwys yn gweithio yn y practis bob amser, heb fod angen cyflogi nyrsys deintyddol locwm dros dro. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym eu bod yn darparu parhad gofal drwy ddefnyddio staff o'u practis arall i gyflenwi yn ystod cyfnodau o salwch a gwyliau.

Nid oedd polisi recriwtio ar waith i helpu i lywio'r practis wrth recriwtio aelodau newydd o staff yn ddiogel. Mae angen polisi sy'n nodi'r broses i'w dilyn gan gynnwys gwiriadau cyn-cyflogi priodol y byddai'r practis yn eu cynnal er mwyn sicrhau bod aelodau newydd o staff yn meddu ar y cymwysterau addas a'u bod yn addas i weithio gyda chleifion.

Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol, ar adeg cofrestru, i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar Dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gyhoeddwyd o fewn y tair blynedd flaenorol. Gwelsom dystiolaeth bod gwiriadau clirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol ond un. Er mwyn helpu i sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff, argymhellwn fod pob aelod o'r staff yn cael gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd fel mater o anghenraid.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r gwasanaeth roi polisi recriwtio, sefydlu a chadw staff ar waith.

Mae'n rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod holl staff y practis wedi cael gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar y lefel sy'n briodol i'w rôl.

Mae angen i'r gwasanaeth roi polisi chwythu'r chwiban ar waith.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgfyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rhoddwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os byddwn yn nodi unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried i ba raddau y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2017](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Cysylltiad Meddygol\) 2000](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Gwelsom nad oedd yr awtoclaf wedi cael ei wasanaethu'n unol â chanllawiau'r gwneuthurwr.	Roedd hyn yn golygu na allem fod yn sicr bod cyfarpar yn cael eu dihalogi'n briodol a'i bod yn bosibl eu bod yn peri risg i gleifion yn sgil croeshalogi.	Codwyd y pryder hwn â'r prif ddeintydd yn ystod yr arolygiad a gofynnwyd i'r broblem gael ei datrys ar unwaith.	Gwnaeth y prif ddeintydd uwchgyfeirio'r mater hwn a chael awtoclaf newydd gan bractis arall a oedd wedi cael ei wasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf. Rhoddwyd hyn ar waith ar ddiwrnod yr arolygiad a chawsom sicrwydd y gallai prosesau dihalogi priodol gael eu cynnal.

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Bridge Street

Dyddiad arolygu: 6 Medi 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr adolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oedd unrhyw faterion yn ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Bridge Street

Dyddiad arolygu: 6 Medi 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae angen i'r gwasanaeth adolygu a diweddarau'r daflen wybodaeth i gleifion i gynnwys manylion y gweithwyr deintyddol proffesiynol presennol a chyflwyno copi i AGIC.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 7 (a) a (b)	Mae'r practis wedi llunio taflen wybodaeth i gleifion wedi'i diweddarau, sy'n cynnwys yr holl bwyntiau perthnasol sy'n ymwneud â gofynion Rheoliad 7 (canllaw i gleifion). Mae copi wedi cael ei anfon at AGIC.	Mr Michael Shaw	cwblhawyd
Mae angen i'r gwasanaeth sicrhau bod copïau o'r daflen gwybodaeth i gleifion ar gael yn y dderbynfa/ardal aros.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Mae gennym 25 o gopïau (hwylus i'w argraffu) yn barod i gleifion yn yr ystafell aros. Byddwn yn sicrhau y caiff y stoc ei adnewyddu'n rheolaidd. Mae gennym hefyd	Mr Michael Shaw	cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Rheoliad 6 (2) a (3)	gopi caled ar fformat Word a PDF y gellir ei anfon at gleifion drwy'r e-bost yn ôl y gofyn.		
Mae angen i'r gwasanaeth adolyguac arddangos canlyniadau adborth yn yr ardal aros.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 16 (d)	<p>Bydd Practis Deintyddol Bridge Street yn sicrhau ein bod yn casglu barn ein cleifion a, lle y bo angen, yn gwneud newidiadau i'r gwasanaeth, y driniaeth neu'r gofal a ddarperir er mwyn adlewyrchu hynny.</p> <p>Yn ogystal, rydym yn bwriadu llunio arolwg boddhad cleifion blynyddol i fonitro ein gwasanaethau a chael adborth cleifion er mwyn gwneud gwelliannau.</p> <p>Byddwn yn cael adborth parhaus drwy ein ffurflenni arolwg i gleifion sydd ar gael yn yr ystafell aros. Mae blwch preifatrwydd i gleifion er mwyn iddynt gyflwyno'u sylwadau'n ddienw. Rydym hefyd yn ceisio barn wrth i'r deintyddion ddarparu gofal a chyfathrebu ag aelodau eraill o'r staff.</p>	Mr Michael Shaw	cwblhawyd
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Mae angen i'r rheolwr cofrestredig drefnu rhagor o hyfforddiant ar ddadebru cardiobwlmonaidd i	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Mae trefniadau wedi'u gwneud i bob aelod o'r staff gael hyfforddiant dadebru	Mr Michael Shaw	cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
bob aelod o'r staff clinigol a darparu tystiolaeth i AGIC.	Rheoliad 31 (3) (a)	cardiobwlmonaidd, ac mae tystiolaeth wedi'i chyflwyno i AGIC.		
Mae angen i'r rheolwr cofrestredig roi proses ar waith lle caiff cyffuriau brys eu harchwilio'n rheolaidd a chyffuriau sydd wedi darfod eu gwaredu.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 13 (4) (a)	Mae gennym Brocolol ar waith ar gyfer rheoli cyffuriau brys a gwirio'r dyddiadau darfod. Mae'r protocol eisoes ar waith. Caiff cofnodlyfr cyffuriau a'r holl offer brys arall eu gwirio, naill ai'n ddyddiol, yn wythnosol neu'n fisol yn ôl yr angen. Mae'r staff i gyd yn ymwybodol o'r drefn ar gyfer gwaredu cyffuriau sydd wedi darfod, drwy ein cytundeb gwastraff gydag Initial Medical.	Mr Michael Shaw	cwblhawyd
Mae angen i'r rheolwr cofrestredig roi proses ar waith i sicrhau bod cyfarpar dihalogi yn cael ei gynnal a'i gadw'n rheolaidd.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 8 (d)	<p>Rydym wedi rhoi proses ar waith i'n galluogi i fonitro ansawdd ac addaswydd y cyfleusterau a'r cyfarpar, gan gynnwys cynnal a chadw cyfarpar o'r fath.</p> <p>Rydym wedi creu Calendr i'r practis sy'n nodi dyddiadau gwasanaethu ein contractwyr a'r dyddiadau adolygu. Mae'r calendr hwn ar gael i'r tîm. Byddwn hefyd yn derbyn negeseuon e-bost gan ein contractwyr allanol pan fydd hi'n bryd gwasanaethu ein hoffer.</p>	Dr Michael Shaw	cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Caiff holl dystysgrifau'r practis eu cadw yn ffeil Tystysgrifau'r Practis, er mwyn ei gwneud hi'n bosibl i gafael arnynt yn hawdd.		
<p>Mae angen i'r gwasanaeth roi polisi cynnal a chadw ar waith er mwyn sicrhau bod yr eiddo'n ddiogel ac yn addas at y diben.</p> <p>Mae angen i'r gwasanaeth roi proses ar waith er mwyn sicrhau bod yr amserlen o waith cynnal a chadw a gynllunnir yn cael ei gwblhau.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017</p> <p>Rheoliad 8(c) a 22(1)(2)</p>	<p>Rydym wedi rhoi proses ar waith ar gyfer yr holl waith cynnal a chadw ar y safle. Rydym wedi creu Ffeil gyda chalendr o ddigwyddiadau yn cynnwys dyddiadau adolygu a dyddiadau gwaith cynnal a chadw sydd ar y gorwel. Mae gennym gontractau allanol ar gyfer profi'r offer canlynol bob blwyddyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> Larymau Tân Goleuadau Argyfwng Cyfarpar ymladd tân Dyfeisiadau Trydanol Cludadwy Larwm Diogelwch Gwaith cynnal a chadw'r Awtoclaf, peiriant pelydr-X, Cywasgydd Llinellau Dŵr <p>Rydym wedi cwblhau Asesiad Risg Arolygu Adeilad y Practis ym mis Hydref 2019. Byddwn yn ei adolygu'n flynyddol.</p> <p>Yn ogystal â sicrhau bod yr adeilad yn addas at y diben bob amser, rydym hefyd yn dangos ein bod yn darparu gwasanaethau sy'n ddiogel ac yn cydymffurfio.</p>	Dr Michael Shaw	cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae angen i'r practis gynnal asesiad risg sy'n cynnwys y defnydd o ddyfeisiau diogelwch priodol i liniaru yn erbyn y risg o anaf damweiniol os bydd yn parhau i ddefnyddio chwistrellau y gellir eu haildefnyddio ar gyfer rhoi anaestetig lleol neu fel arall, ddefnyddio chwistrellau untro tafladwy ar gyfer rhoi anaestetig lleol sy'n cynnwys system ddiogelwch.</p>	<p>Safonau Iechyd a Gofal 2015</p> <p>Safon 2.9</p>	<p>Rydym wedi cwblhau asesiad risg Offer Miniog. Mae pob aelod o'r tîm wedi'i lofnodi i'w gydnabod.</p> <p>Mae gennym hefyd bolisi Offer Miniog ar waith y mae'r holl staff wedi'i lofnodi ac yn gallu ei weld. Mae hefyd wedi'i arddangos yn yr ystafell Ddihalogi.</p> <p>Mae gennym brosesau ar waith sy'n sicrhau bod cyfarpar a dyfeisiau yn cael eu cynnal a'u cadw, eu glanhau a'u calibradu yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwyr, gan sicrhau eu bod yn briodol ar gyfer eu diben a'r amgylchedd y cânt eu defnyddio ynddo.</p> <p>Byddwn yn trafod ac yn adolygu polisiau mewn cyfarfodydd tîm o ran hyfforddiant ar ddefnydd diogel, gwaredu diogel a risgiau.</p> <p>Mae gennym bolisiau a gweithdrefnau ar waith ar gyfer dihalogi gan staff cymwys mewn amgylchedd priodol.</p>	<p>Dr Michael Shaw</p>	<p>cwblhawyd</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae angen i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl staff clinigol yn cael eu hyfforddi i ddiogelu plant ac oedolion.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017</p> <p>Rheoliad 14 (b)</p>	<p>Mae gan y tîm cyfan fynediad at hyfforddiant ar-lein drwy Isopharm.</p> <p>Mae Isopharm yn darparu hyfforddiant gloywi Lefel 1 a 2 sy'n cwmpasu aelodau tîm clinigol ac anghlinigol. Dim ond dau aelod anghlinigol sydd angen diweddarau eu hyfforddiant gloywi Lefel 1 ar hyn o bryd.</p> <p>Byddaf yn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r angen i ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl a'u bod yn gyfarwydd ag unrhyw weithdrefnau cenedlaethol ar gyfer amddiffyn plant ac oedolion sy'n wynebu risg;</p> <p>Mae'n rhaid i aelodau anghlinigol o'r tîm gael Hyfforddiant Diogelu Lefel 1. Dylid cael o leiaf 2 awr o hyfforddiant gloywi mewn cyfnod o dair blynedd.</p>	<p>Dr Michael Shaw</p>	<p>Rhagfyr 2019</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Mae'n rhaid i aelodau clinigol o'r tîm gael Hyfforddiant Diogelu Lefel 2 sy'n cynnwys hyfforddiant Lefel 1. Dylid cael o leiaf 3 – 4 awr o hyfforddiant gloywi mewn cyfnod o dair blynedd.		
Mae'n rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod holl staff y practis wedi cael gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar y lefel sy'n briodol i'w rôl.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 18 (2) a (3) Atodlen 3(2)	Mae'r holl staff presennol wedi cael gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.	Dr Michael Shaw	cwblhawyd
Mae angen i'r gwasanaeth adolygu cynllun yr ystafell ddihalogi, ac ystyried gosod lle storio ar y waliau.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 22(a)	Mae'r ystafell Ddihalogi wedi cael ei hailwampio. Mae'r holl gyfarpar nad oedd yn cael ei ddefnyddio wedi'i waredu. Rydym wedi cael gwared ar y silffoedd annibynnol ac yn defnyddio'r unedau storio oddi tanynt. Ceir llif amlwg ar gyfer dihalogi cyfarpar.	Dr Michael Shaw	cwblhawyd
Mae angen i'r gwasanaeth gwblhau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 bob blwyddyn.	Rheoliadau Deintyddiaeth	Mae'r Practis wedi lawrlwytho'r ddogfen Adnodd Archwilio o wefan Deoniaeth Cymru. Rydym yn bwriadu cwblhau'r archwiliad cyn	Dr Michael Shaw	Rhagfyr 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 16 (2) a (3)	gynted â phosibl i'r un safon uchel a gyflawnwyd gennym yn ein harchwiliad dihalogi blaenorol.		
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
<p>Mae angen i'r practis gwblhau cyfres o archwiliadau clinigol ac archwiliadau practis, fel yr argymhellir gan ganllawiau a gydnabyddir yn genedlaethol.</p> <p>Mae angen i'r rheolwr cofrestredig ddatblygu polisi archwilio er mwyn cefnogi'r broses o gwblhau archwiliadau clinigol.</p>	<p>Safonau Iechyd a Gofal 2015 Safon 3.1</p> <p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017</p> <p>Rheoliad 8(n) a 16</p>	<p>Mae Practis Deintyddol Bridge Street wedi rhoi rhestr o archwiliadau clinigol ac archwiliadau Practis ar waith. Bydd y rhain yn cynnwys y trefniadau ar gyfer Archwiliad Clinigol yn unol â chanllawiau a argymhellir gan Ddeoniaeth Cymru.</p> <p>Archwiliad rhoi'r gorau i smygu, archwiliad radiograffeg, archwiliad rhagnodi gwrthficrobaidd, archwiliad nodiadau clinigol. Ochr yn ochr ag asesiadau gan gymheiriaid gan bractisau lleol eraill.</p> <p>Caiff hyn ei gefnogi ymhellach gan ein cyfarfodydd practis tîm, lle rydym yn cyfathrebu ac yn ceisio barn cleifion (gan gynnwys disgrifiadau o'u profiadau o roi gofal a thriniaeth) yn rheolaidd, a barn pobl a gyflogir gan y practis deintyddol preifat neu</p>	Dr Michael Shaw	Ebrill 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>at ei ddibenion; a Gwranddo a Dysgu o Adborth.</p> <p>Proses gwella ansawdd sy'n ceisio gwella gofal a chanlyniadau cleifion drwy adolygiad gofal systematig yn erbyn meini prawf amlwg a rhoi newidiadau ar waith. Caiff agweddau ar strwythur, prosesau a chanlyniadau gofal eu dewis a'u gwerthuso'n systematig yn erbyn meini prawf penodol yn unol â chanllawiau Deoniaeth Cymru ar yr archwiliadau a argymhellir.</p> <p>Mae'r rheolwr cofrestredig hefyd wedi dilyn cwrs DPP ar archwilio er mwyn ymglyfarwyddo ag arferion cyfredol ochr yn ochr â pholisi'r practis o gwblhau archwiliadau a gwella gofal i gleifion.</p>		
<p>Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi polisi ar waith ar gyfer recriwtio, sefydlu a chadw staff.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017</p> <p>Rheoliad 8 (h)</p>	<p>Mae gan Bractis Deintyddol Bridge Street bolisi ar waith ar gyfer recriwtio, sefydlu a chadw staff.</p> <p>Mae pob aelod o'r staff wedi llofnodi i gydnabod y Polisi ac yn gwybod ble i gael gafael arno er mwyn cyfeirio ato yn y dyfodol.</p>	<p>Dr Michael Shaw</p>	<p>cwblhawyd</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gweithdrefn effeithiol ar waith lle gall staff godi pryderon.	8.4, Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol	Mae gan Bractis Deintyddol Bridge Street bolisi ar waith ar gyfer Adrodd ar Berfformiad Gwael y Practis (Polisi Chwythu'r Chwiban). Mae pob aelod o'r staff wedi llofnodi i gydnabod y Polisi ac yn gwybod ble i gael gafael arno er mwyn cyfeirio ato yn y dyfodol.	Dr Michael Shaw	cwblhawyd

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolwr gwasanaeth Practis Deintyddol Bridge Street

Enw (priflythrennau): Michael Shaw

Swydd: Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: